



# **Syniadau I Senedd**

**3/12/18**





## Newid y system bleidleisio

*Cyflwyno system newydd i osgoi awyrgylch gwrthdemocrataidd anfwriadol posib o bwysau i bleidleisio mewn ffordd benodol.*

Manylion:

Dros y blynyddoedd dwi wedi'u treulio'n mynychu cyfarfodydd Cyngor Undeb Myfyrwyr, dwi wedi sylwi ei bod hi'n bosib bod y dull presennol o bleidleisio wedi mynd yn wrthddemocrataidd. Yn y Senedd gyntaf, fe wnes i a llawer o bobl eraill sylwi bod yr awyrgylch yn dueddol o annog pwysau gan gyfoedion ac felly o bosib yn dirywio'r bleidlais oherwydd ofn pleidleisio mewn ffordd benodol ac achosi'r ystafell i gamddehongli'r rhesymeg y tu ôl iddo.

Er enghraifft, gall person fod am wrthwynebu cynnig penodol am resymau logistaidd neu ariannol ond byddai pleidleisio yn ei erbyn yn ymddangos bod y person hwnnw'n ei wrthwynebu'n llwyr, ac felly yn hytrach na pheri'r risg o sarhau neu ddioddef rhagfarn, bydden nhw'n tueddu i bleidleisio o blaid.

Dwi'n cynnig y dylai Undeb y Myfyrwyr roi system bleidleisio newydd ar waith i wrthwynebu hyn. Er bod codi dwylo'n gweithio yn yr hen system gan fod y grŵp mwy o bleidleiswyr yn rhoi tipyn bach o anhysbysrwydd i'r gynulleidfa, does gan faint bach y Senedd ddim diogelwch o'r fath rhag pwysau

Cyflawnwyd gan: Kieran Russell Metson





## Mascot

*MASCOT BUCS*

Manylion:

Syml iawn. Hoffen ni gael mascot (mewn gwisgoedd gwirion siŵr o fod) sy'n dod i gefnogi'r timau mewn gemau BUCS ac yn y Rhyngolgampau! Byddai hynny'n wych!

Cyflawnwyd gan: Harry Straw





## Rydyn ni am weld cyllid ar gyfer chwaraeon

*Mae mwy i'w wneud yn y Brifysgol na'ch gradd, rydyn ni am gael yr amser gorau posib yn manteisio ar academia ac ar gyfleoedd*

Manylion:

Mae yn gred gyffredinol ryfedd bod chwaraeon yn y brifysgol hon yn cael eu hariannu'n dda. O ystyried Prifysgol o'n maint ni sydd â 50 a mwy o dimau chwaraeon, mae'n bosib mai ni sydd â'r cyllid chwaraeon gwaethaf yng Nghymru.

Hoffwn i'r Brifysgol flaenoriaethu adnewyddu cyfleusterau chwaraeon dros gyfleusterau academiaidd mewn effaith wasgaredig, er enghraifft, ar gyfer pob llawr Llyfrgell Hugh Owen maen nhw'n eu hadnewyddu, dylen nhw geisio datblygu'r cyfleusterau chwaraeon neu fuddsoddi ynddynt.

Ar hyn o bryd yw sgôr yw Hugh Owen 1 - 0 Tîm Chwaraeon

I ble aeth cariad y Brifysgol at chwaraeon?

Cyd-destun, nid union ffigurau'r 12 mlynedd diwethaf yw'r rhain, ond mae oddeutu 1.5 miliwn wedi cael ei fuddsoddi mewn chwaraeon, (o'i gymharu â Bangor sydd wedi buddsoddi 5 miliwn yn ystod y 3 blynedd diwethaf). Gwelwyd buddsoddiadau mawr ar gampws newydd Gogerddan campws fydd o leiaf 10 gwaith yn uwch.

Hoffwn i weld nid arian cyfatebol rhwng y ddau, ond mae angen cyllideb ar gyfer chwaraeon i ddatblygu'n briodol yn y sefydliad hwn.

Cyflawnwyd gan: Bruce Fraser Wight





## **Prifysgol Gynaliadwy, Rydd o Olew Palmwydd, Gyntaf y DU yn Aberystwyth!**

*Sicrhau bod y Brifysgol yn rhydd o olew palmwydd erbyn Ionawr 2020.*

Manylion:

Mae llawer o'r cynhyrchion a ddefnyddir ac a werthir ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cynnwys olew palmwydd, sylwedd a gynhyrchir yn bennaf yng ngwledydd Asia ac a ddefnyddir yn rhannau helaeth o'r DU ac Ewrop. Mae olew palmwydd wedi bod, ac yn parhau, yn sbarduno datgoedwigo yn rhai o goedwigoedd mwyaf bio-amrywiol y byd, gan ddinistrio cynefinoedd rhywogaethau sydd eisoes mewn perygl, fel yr orangwtan a'r eliffant Asiaidd. Mae disgwyl i'r ddau ddiflannu o fewn 10 ac 20 mlynedd os na chaiff dim byd ei wneud heddiw. Hefyd, mae'n cael effaith niweidiol ar allyrru symiau sylweddol o nwyon tŷ gwyrdr i'r atmosffer, gan gyfrannu at newid hinsawdd ac effeithio ar gynefinoedd llawer o rywogaethau eraill ledled y byd.

Trwy greu, gwerthu a defnyddio olew palmwydd ym Mhrifysgol Aberystwyth dim ond i'r rheiny sy'n gynaliadwy, gallwn ni helpu i fynd i'r afael â'r problemau hyn ac achub llawer o rywogaethau rhag wynebu'r posibilrwydd o ddiflannu. Ein huchelgais yw sicrhau bod y Brifysgol yn rhydd o olew palmwydd erbyn Ionawr 2020.

Cyflawnwyd gan: Harry Basnett





## **Syml a chryno - newid y weithdrefn wella cynigion.**

*Dylid bod cyfle i wella cynigion brys os bydd angen.*

Manylion:

Os ychwanegir cynnig brys sydd heb gael cyfle i gael ei wella at gyfarfod, dwi'n cynnig bod y Senedd yn rhoi cyfle i'r cynrychiolwyr drafod a chyflwyno gwelliant i'r cadeirydd pe bai angen un.

Dylid bod araith gychwynnol i esbonio diben y cynnig i bawb. Ar ôl hyn, bydd cwestiynau a thrafod cyffredinol.

Yna, os bydd y cynrychiolwyr yn penderfynu, dylid cyflwyno gwelliant a phleidleisio arno yn unol â gweithdrefn gyffredinol y Senedd i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r hyn mae'r gwelliant yn ei olygu ac na chaniateir dileu neu basio unrhyw gynnig brys heb gyfle i'w wella.

Dyma ffordd bosib o wneud hyn:

Os bydd unrhyw gynrychiolydd yn dymuno gwella'r cynnig brys, dylen nhw drafod gyda phob cynrychiolydd ar eu bwrdd yn ystod y cyfnod trafod. Unwaith i hyn ddigwydd, dylai pob bwrdd anfon cynrychiolydd at y cadeirydd. Gall y grŵp hwn drafod ymhlith eu hunain wrth ystyried buddiannau gorau eu byrddau cyn penderfynu ar un cynrychiolydd i gyflwyno'r gwelliant hwn.

Cyflawnwyd gan: Lyra J Hawkins





## Gwrthwynebu'r penderfyniad i foicotio strategaeth Prevent

*Gwrthwynebu'r penderfyniad i foicotio strategaeth Prevent, sy'n gweithio i atal unigolion bregus sydd wedi'u difreinio rhag cael eu radicaleiddio.*

Manylion:

Mae llawer o fyfyrwyr yn pryderu am y penderfyniad diweddar i foicotio strategaeth Prevent. Hoffem gyflwyno'r syniad i wrthwynebu'r boicot hwn ac addysgu corff y myfyrwyr a'r staff ymhellach ar bwysigrwydd y strategaeth.

Nod y strategaeth yw atal unigolion bregus sydd wedi'u difreinio rhag cael eu radicaleiddio gan sefydliadau eithafol a therfysgol, fel Combat 18, ISIS, National Action ac yn y blaen. Ymddengys fod y penderfyniad i foicotio'r strategaeth wedi'i wneud yn bennaf oherwydd pryder bod y strategaeth yn targedu myfyrwyr CLIE a myfyrwyr rhyngwladol ac yn gwahaniaethu yn eu herbyn yn sgil gosod poster 'ymwybyddiaeth' yn adeilad IEC. Byddwn i'n gwrthwynebu'r farn hon ar y sail nad yw'r strategaeth ar unrhyw bwynt yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn unigolion ar sail hil neu ddiwylliant. Mae'n wrthrychol wrth fynd ati i atal radicaleiddio ac yn achos radicaleiddio i radicaleiddio'r unigolion hynny.

Mae radicaleiddio plant ac oedolion bregus sydd wedi'u difreinio yn broblem sy'n gwaethygu'n gyflym ac yn fygythiad i ddiogelwch cenedlaethol yn ogystal â diogelwch rhyngwladol. Mae sefydliadau eithafol a therfysgol yn targedu'r unigolion hyn drwy ddefnyddio technegau i ennill eu hymddiriedaeth a'u cyfeillgarwch. Yn sgil hynny, bydd y berthynas yn mynd yn fwyfwy radical ac eithafol ac, mewn rhai achosion, daw'r unigolion hynny yn derfysgwyr. Roedd yr unigolion a gyflawnodd yr ymosodiadau ym Manceinion, San Steffan ac eraill yn Llundain wedi cael eu radicaleiddio rhywbryd yn eu bywydau. Mae'r syniad o foicotio'r union un strategaeth sy'n gweithio i atal y broses radicaleiddio hon yn wrth-reddfodol gan ei bod yn ei gwneud hi'n haws i'r sefydliadau hyn dargedu unigolion bregus sydd wedi'u difreinio.

Llynedd yn y DU, bu 119 o ddigwyddiadau terfysgol (yn ôl y Gronfa Ddata Derfysgaeth Fyd-eang - ac eithrio achosion amwys). Cyfanswm y marwolaethau oedd 41. Fodd bynnag, mae strategaeth Prevent wedi bod yn llwyddiannus; mae nifer yr ymosodiadau difrifol/angheuol wedi gostwng. Mae nifer o gynlluniau wedi'u hatal hefyd.

Yn gryno, rydw i a llawer o fyfyrwyr yn pryderu am y penderfyniad diweddar hwn. Hoffem fynd â'r mater hwn i'r CCB a'i drafod, gan obeithio arwain at bleidlais gan gorff y myfyrwyr. Ar y lleiaf, byddai hyn yn codi ymwybyddiaeth o'r mater a all ond fod yn fanteisiol gan fod modd i derfysgaeth effeithio ar fywydau pob un ohonom ni, felly bydd cyfle i hysbysu ac addysgu ein myfyrwyr yn eu gwneud yn fwy ymwybodol o radicaleiddio ac felly'n ein gwneud ni'n ddiogelach fel prifysgol ac ymhellach fel cymuned.

Cyflawnwyd gan: Jack Clare

